Cenn@d

EBRILL 19 2023 YN CYNNWYS *Y GOLEUAD A SEREN CYMRU* RHIF 112

# Heddwch Nain / Mam-gu

Mae'r gist sy'n cynnwys llofnodion 390,296 o fenywod Cymreig yn galw am fyd heb ryfel wedi cyrraedd yn ôl i Gymru ar 5 Ebrill.

Hwyliodd y gist am America ganrif yn ôl. Roedd y boen a'r erchyllterau a brofwyd yn sgil y Rhyfel Byd Cyntaf wedi gwneud menywod Cymru'n benderfynol o geisio byd mwy teg, cyfiawn a heddychlon. Roedd y ddeiseb yn galw ar fenywod America i helpu i sefydlu Cyngres y Cenhedloedd fel ffordd o osgoi rhyfeloedd yn y dyfodol.

Yn 2016 cynorthwyodd aelodau Cymdeithas y Cymod i ffurfio 'Heddwch Mam-gu' gyda'r amcanion canlynol:

- canfod y ddeiseb a'i dychwelyd i Gymru
- ysgogi menter Cymru gyfan yn gofyn y cwestiwn: a wnaeth eich mam-gu lofnodi'r ddeiseb?
- ysbrydoli cenhedlaeth newydd o ymgyrchwyr dros heddwch.

Daethpwyd o hyd i'r ddeiseb yn Amgueddfa'r Smithsonian yn Washington, ac mae bellach wedi cael ei rhoi i Lyfrgell Genedlaethol Cymru yn barhaol.

Mae partneriaeth a arweinir gan yr Academi Heddwch wedi sicrhau nawdd drwy Lywodraeth Cymru a'r Loteri a fydd:



Archwilio'r llofnodion



Aelodau o'r ymgyrch Heddwch Nain / Mam-gu yn croesawu'r gist i'w chartref newydd yn y Llyfrgell Genedlaethol

- yn digido a chefnogi gwirfoddolwyr i drawsgrifio'r llofnodion
- cyflogi staff a fydd yn gweithio gyda chymunedau i gyfleu'r hanes ac archwilio'i berthnasedd ar gyfer ein byd heddiw sy'n dal i gael ei rwygo gan ryfel.

Dyma apêl ar ran aelodau a chyfeillion Cymdeithas y Cymod i ymuno â Heddwch Mam-gu. Mae gennym dasg sydd hyd yn oed yn fwy o'n blaenau. Ar lefel y gymuned ym mhob cornel o Gymru, mae angen inni weithio gyda'n gilydd i ddod â'r stori hon o obaith a gweledigaeth i bob cartref, ysgol, canolfan gymunedol ac eglwys. Mae angen inni gofleidio pobl o wahanol ffydd yr oedd eu neiniau o bosib yn byw mewn rhannau eraill o'r byd. Fe fydd adnoddau ar gael i'n helpu i rannu ein stori a fydd yn addas i'w defnyddio yn y pulpud, mewn ysgolion a grwpiau ieuenctid, ar y cyfryngau cymdeithasol a lle bynnag y gallwch fod yn weithredol.

Bydd cael y rhaglen hon yn gweithio ochr yn ochr â gwaith y grŵp ymgyrchu Heddwch ar Waith dros y 18 mis nesaf yn ffordd effeithiol o ymgysylltu â phobl newydd, gyda'ch help chi. Gadewch inni gyfleu beth mae'n ei olygu i Gymru fod yn Genedl Heddwch. Gadewch inni herio'r filitariaeth, a'i chysylltiadau â heriau newid hinsawdd, sydd wedi ymledu i bob rhan o'n cymdeithas. A allwch chi gyfrannu tuag at greu gweledigaeth amgen ar gyfer ein cenedl?

E-bostiwch: heddwchnain.mamgu@gmail.com neu ysgrifennwch at: 10 Garreg Frech, Llanfrothen, Gwynedd LL48 6BZ

Wedi'r Pasg
**Tudalen 3**

O Gefn Gwlad
'Gwae ni chlyw organ a chlych'
**Tudalen 4**

Abraham
20 Cyfamod – enw a phobl
**Tudalen 6**

# *Rwy'n credu* –albwm newydd Cass Meurig

Casgliad o ganeuon ffydd newydd gan y gantores a'r offerynwraig Gristnogol Cass Meurig yw *Rwy'n Credu*, a lansiwyd yng ngŵyl Llanw, Llangrannog, 10–13 Ebrill.

Mae caneuon Cass yn cyfuno'r ysgrythur, caneuon gwerin a myfyrdod ar fywyd. Maent yn siarad am ffydd, cariad, llawenydd a gobaith, ac yn deillio o berthynas agos ag Iesu. Wrth iddi ffeindio ysbrydoliaeth yn ei ffydd ei hun a'i siwrne bywyd, mae Cass yn plethu adnodau o'r Beibl ac alawon Cymreig hyfryd, gan gyfeilio iddi hi ei hun yn feistrolgar ar ffidil, crwth, fiola, gitâr a phiano.

Cafodd albwm diwethaf Cass o ganeuon Cristnogol, *Taith*, ei ryddhau yng Ngŵyl Coda a bu Cass yn perfformio ar *Dechrau Canu, Dechrau Canmol* a ledled Cymru. Yn ystod cyfnodau clo Covid-19, fe wnaeth Cass ryddhau nifer o osodiadau litwrgaidd ar alawon gwerin Cymraeg ar ei Sianel Youtube. Roeddynt yn boblogaidd ar gyfer gwasanaethau ar-lein ac maent bellach yn ffefrynnau gyda chynulleidfaoedd drwy Gymru.

Bydd ffans niferus *Taith* yn caru *Rwy'n Credu*. Dyma gerddoriaeth i'r enaid.

Beth am wahodd Cass i'ch eglwys chi i gyflwyno'i chaneuon newydd?

I gysylltu â Cass, e-bostiwch: cass@cassmeurig.com

Gwefan Cass: https://cassmeurig.com




# Dathliadau'r Pasg ar draws Cymru

Eleni eto gwelwyd cyfarfodydd bywiog a byrlymus ar hyd a lled Cymru, gan gynnwys nifer o gyfarfodydd allan yn yr awyr agored. Braf oedd gweld eglwysi unwaith eto eleni yn tystio i'r newyddion da fod Iesu'n fyw!



Criw Llan Llanast eglwys Rhos-y-gad, Llanfair-pwll yn gwneud crefftau wrth ddysgu am hanes y Pasg



Aelodau pob oed eglwys y Tabernacl, Caerdydd yn cynnal oedfa yn yr Ais fore Sul y Blodau



Plant Ysgol Sul Capel y Morfa, Aberystwyth allan yn yr awyr iach yn chwilio am wyau Pasg



Aelodau a ffrindiau Caersalem, Caernarfon yn dathlu'r Pasg gyda choelcerth a myfyrdod yng Nglan Morfa

# Wedi'r Pasg

Beth ddigwyddodd wedi'r Pasg cyntaf?

Ddwy fil o flynyddoedd yn ôl, credwn i Iesu goncro marwolaeth am byth. Treiglwyd y maen i ffwrdd o fynedfa'r beddrod gwag, a chawsom gynnig bywyd newydd yng Nghrist.

Ond beth ddigwyddodd nesaf?

Darllenwch ymlaen a sylwch ar bum peth a wnaeth Iesu ar ôl iddo atgyfodi – a beth mae hyn yn ei olygu i ni heddiw:

### 1. Ymddangosodd Iesu

Treuliodd Iesu 40 diwrnod ar y ddaear ar ôl ei atgyfodiad. Yn ystod y cyfnod hwn, lleddfodd amheuon ei ddilynwyr a rhoi cyfeiriad a phwrpas iddyn nhw ar gyfer wynebu'r dyfodol.

Doedd Iesu ddim yn bloeddio am ei gariad o'r nef. Dangosodd ei gariad mewn ffyrdd ymarferol tra oedd yma gyda ni ar y ddaear. Heddiw mae'n gwneud yr un peth. Mae'n dal yn agos, yn barod i glywed ein cri ac i iacháu ein calonnau.

### 2. Roedd Iesu'n pwysleisio rôl y gymuned, neu'r gymdeithas, Gristnogol

O dorri bara wedi cydgerdded ar y ffordd i Emaus, i gael brecwast ar y traeth gyda'i ddisgyblion, gwelwn Iesu yn gwneud amser i bobl.

Doedd Iesu byth yn rhy brysur i stopio a dangos fod ganddo gonsýrn am bobl. Fel ei ddilynwyr, cawn ninnau hefyd ein galw i wasanaethu pobl – yn ein teuluoedd, ein gweithleoedd, ein cymunedau, ein pentrefi a'n dinasoedd.

Gallwn roi blaenoriaeth fel eglwysi i wasanaethu ein cymunedau. Beth am inni ganolbwyntio ein hymdrechion i hybu cyfeillgarwch a rhannu Gair Duw mewn gair a gweithred drwy annog pobl i ymddiddori yn ein cymunedau Cristnogol?



Llun: Caravaggio Emaus, https://commons.wikimedia.org/wiki/File:CaravaggioEmmaus.jpg

### 3. Cysurodd Iesu'r toredig

Pan ddaeth Iesu yn ôl, doedd e ddim yn rhwystredig oherwydd nad oedd ei ddisgyblion wedi deall ei gynllun. Penderfynodd gyfarfod â nhw yn eu hansicrwydd, eu hofn a'u dryswch yn y fan lle roeddent ar y pryd.

Roedd Iesu'n cysuro'r fenyw oedd yn wylo wrth y bedd gwag. Ceisiodd leddfu amheuon Thomas. Llefarodd eiriau o fywyd a heddwch.

Heddiw, mae gan ein Gwaredwr amynedd a gras o hyd i ni sydd â chymaint o gwestiynau heb eu hateb. Mae'n dal i glosio'n agos atom pan fydd ein calonnau'n brudd.

### 4. Roedd Iesu'n maddau ac yn adfer camgymeriadau

Cyn y croeshoeliad, ceisiodd Pedr wadu ei fod yn adnabod Iesu dair gwaith. Yn ddiweddarach, gwelsom Iesu yn cynnig adferiad i Pedr drwy ofyn iddo dair gwaith a oedd yn ei garu, cyn ei gyfarwyddo i ofalu am ei bobl.

Er i Pedr gloffi yn ei ffydd, wnaeth o ddim colli ei adnabyddiaeth o Grist.

Yn yr un ffordd, gallwn ymddiried bod grym Duw yn abl i'n gwneud ninnau yn berffaith, er cymaint yw ein gwendidau niferus.

### 5. Ceisiodd Iesu roi cyfarwyddyd ac anogaeth i'r disgyblion

Cyn i Iesu esgyn i'r nefoedd, dywedodd wrth ei ddilynwyr am 'fynd i wneud disgyblion o bob cenedl'.

Gyda'r cyfarwyddiadau hyn yn gefn, cawn ninnau ein galw i fyw bob dydd drwy nerth yr Ysbryd, gan geisio chwilio am gyfleoedd newydd i rannu'r Efengyl.

Ein gwaith ni yw dangos i bobl beth mae'n ei olygu i adnabod Duw a'i gariad ef.

Beth am ichi rannu Gair Duw â'r bobl yn eich bywyd chi heddiw: eich teulu, ffrindiau, cydnabod a chymdogion?

Efallai fod y Pasg ar ben am flwyddyn arall, ond mae'r hyn mae'n ei olygu i ni yn bwysig drwy'r flwyddyn. Oni chredwn ni fel ymneilltuwyr fod pob Sul yn Sul y Pasg! Fe atgyfododd, do! Atgyfododd yn wir!

Oherwydd marwolaeth ac atgyfodiad Iesu, rydyn ni'n gallu cael mynediad at ras, presenoldeb, a sicrwydd Duw fel erioed o'r blaen – am byth.

(Addasiad o 'What happened after Easter' oddi ar wefan www.blog.youversion.com)

*Jim Clarke*

# Y Gymdeithasfa yn y Gogledd

Cynhelir y Gymdeithasfa yng Nghapel y Rhos,
Llandrillo-yn-Rhos

Ddydd Mawrth, 25 Ebrill 2023

Bydd yr eisteddiad cyntaf am 10yb a'r ail eisteddiad am 1.30yp

Gellir derbyn dolen Zoom ar gyfer ymuno yn yr eisteddiadau drwy gysylltu â'r Ysgrifennydd: elwyn.richards@ebcpcw.cymru

Cynhelir oedfa gymun am 5yh pryd y coffeir gweinidogion a blaenoriaid a gollwyd ac y trosglwyddir Llywyddiaeth y Gymdeithasfa i'r Parchg Anna Jane Evans.

I ymuno â'r oedfa ar Zoom am 5yh defnyddiwch:

https://us02web.zoom.us/j/81001241676?pwd=Q1hSSnBWcXJEOWxpL0owdHU0K2FLZz09

Meeting ID: 810 0124 1676
Passcode: 355521



# O Gefn Gwlad

## ‘Gwae ni chlyw organ a chlych’

A minnau’n effro rhwng tri a phump y bore, fel y byddaf yn aml, mi ddaeth i fy meddwl un noson linell o waith Guto’r Glyn sy’n bennawd i’r geiriau hyn. Gwrando yr oeddwn ar ddistawrwydd y Sarnau a meddwl am y miliynau yn Iwcráin, yn bobl a phlant, roddai unrhyw beth am glywed tawelwch yn hytrach na sŵn y bomiau a pheiriannau erchyll rhyfel Putin.

Meddwl wedyn am bennill Cynan yn ei gyfres wych o hwiangerddi, pennill, er na wyddant ddim amdano, sy’n lleisio dyheadau dinasyddion trefi a phentrefi’r wlad ddioddefus honno:

O! na ddeuai chwa i’m suo
  O Garn Fadryn ddistaw, bell,
Fel na chlywn y gynnau’n rhuo
  Ond gwrando am gân y dyddiau gwell.

Ac fel y mae un peth yn arwain at y llall, yn enwedig ganol nos, meddwl am y gair sŵn, un o eiriau lleiaf yr iaith Gymraeg, ac un o’r rhai mwyaf cynhwysfawr, gair am bopeth sy’n taro’r glust. Ond gair sy dros y blynyddoedd wedi magu cymeriad braidd yn anffodus, gair a ddefnyddir yn amlach na pheidio i feirniadu rhywbeth, boed yn ormod o sŵn gan blant ar aelwyd ac mewn ysgol, yn ganu aflafar uchel mewn siopau, yn rhuo annioddefol moto-beics a lorïau ar ein ffyrdd. A gallwn fynd ymlaen ac ymlaen. Ond, yn waeth na dim, sŵn gynnau a bomiau mewn byd sy’n bopeth ond heddychlon.

Mae’n siŵr mai synau gwahanol glywodd Williams Pantycelyn, ond mae rhywbeth yn broffwydol, yn fythol wir yn ei eiriau. Gofiwch chi ddechrau pennill olaf ei emyn ‘Cudd fy meiau rhag y werin’? Dyma’r llinellau:


Gwna ddistawrwydd ar ganiadau
  Cras, afrywiog hen y byd.

Ie, **hen** y byd, Gwaetha’r modd.

Ond mynegi’r gwae o beidio clywed y mae Guto’r Glyn yn un o’i gerddi sy’n sôn am henaint a cholli cyneddfau wrth fynd yn hŷn. I mi, ganol nos, roedden nhw’n awgrymu rhywbeth hollol wahanol.

Yr wyf bob amser yn cysylltu sain organ gyda chapel neu eglwys. Yng nghapel Gwyddelwern fy ieuenctid cofio padlo gwyllt mam Gwil (Y Parch Gwilym Ceiriog Evans) yr wyf, gyda fi a fo yn hanner gobeithio y byddai’r pot blodau ar ben yr organ yn dymchwel, ond wnaeth o ddim erioed er mawr siom i ni’n dau!

Cofio hefyd gloch Eglwys Beuno yn ein gwahodd i addoli er mai i Foreia’r Methodistiaid yr aem, nid i’r eglwys. Byddai Ellis Ifan Roberts y clochydd yn canu dwy gloch yr eglwys am chwe munud i ddeg a chwe munud i chwech, yna un gloch am y tri munud ola cyn cyrraedd pen yr awr. A phawb, o glywed y ddwy gloch yn newid i un, yn prysuro’u camau tua’r tri addoldy: Capel Wesle, Eglwys a Chapel Methodus.



Darlun o dŵr eglwys Gwyddelwern

Roedd clywed organ mewn lle o addoliad yn brofiad cyffredin i laweroedd yn y Gymru fu, a chlywed cloch yr eglwys hefyd, fel y cofnododd Williams Parry: ‘Pan oedd clych eglwysi’r llethrau / yn gwahodd tua’r llan’. Bellach, yng Nghymru’r unfed ganrif ar hugain, ychydig iawn o’n dinasyddion sy’n clywed sain organ mewn addoldy, na sŵn y gloch yn gwahodd tua’r llan. Mae’r capeli a’r eglwysi yn cyflym gau, a’r ffyddloniaid yn lleihau o un i un.

Ydi hyn o bwys? A yw synau ‘cras afrywiog hen y byd’ i’w clywed yn fwy croch oherwydd distewi o’r seiniau addoli? A oes mwy o gythrwfl mewn teuluoedd a cholli parch at ein gilydd? A yw’r cyllyll allan a’r cledd o’r wain oherwydd hyn? Ai effaith y dirywiad yw’r colli hwn neu’r rheswm amdano?

Dwi ddim yn gwybod, ond allwn i ddim, a hithau’n ganol nos ac yn yr oriau gwan, anghofio a diystyru gair cynta dyfyniad Guto’r Glyn am y rhai sy’n colli sain yr organ a thinc y gloch – Gwae!

*Elfyn Pritchard*

# Herio militariaeth yng Nghymru

Mae Heddwch ar Waith / Peace Action Wales yn grŵp ymgyrchu newydd o fudiadau heddwch a chyfiawnder sydd wedi derbyn cyllid oddi wrth Ymddiriedolaeth Elusennol Joseph Rowntree yn ddiweddar.

Mae Cymdeithas y Cymod a CND Cymru yn gwahodd ystod eang iawn o fudiadau a sefydliadau i ymuno â ni i weithredu'r rhaglen ganlynol dros y 16 mis nesaf.

Bydd pedwar grŵp gwaith yn cael eu ffurfio:

1. Bydd y grŵp cyntaf yn mapio hyd a lled militariaeth yng Nghymru ac yn diweddaru'r ymchwil sylfaen a gyflawnwyd dros y 15 mlynedd diwethaf, llawer ohono gan yr Academi Heddwch. Rôl Heddwch ar Waith fydd dod â'r wybodaeth hon i sylw'r cyhoedd yng Nghymru drwy weithredu'n ddyfeisgar a chydweithredol. Mae militariaeth i'w gweld ym mhob man yng Nghymru: mae wedi treiddio i'n hysgolion, ein prifysgolion, a'n cymunedau. Bellach, mae canran uchel o'n tir a'n hawyr yn ardaloedd harddaf Cymru yn cael ei defnyddio ar gyfer hyfforddiant milwrol; mae ein Senedd yn annog ffeiriau arfau yn ein prifddinas a diwydiant niwclear peryglus, sydd â chysylltiadau ag arfau niwclear, yng ngogledd Cymru. Mae map digidol o Gymru yn cael ei gynllunio fel rhan o wefan, a bydd map mawr o Gymru'n cael ei ddefnyddio fel cefnlen i'r Babell Heddwch yn yr Eisteddfod Genedlaethol.

2. Bydd yr ail grŵp yn sefydlu dulliau o ddosbarthu a lledaenu gwybodaeth ar ddulliau di-drais a fydd yn ddealladwy a hygyrch i'r cyhoedd yn gyffredinol ac i'n haelodau etholedig. Gobeithir y bydd gan "Dangnefeddwyr Ifanc" lawer i'w gyfrannu wrth weithredu strategaeth gyfathrebu. Bydd pobl o dan 30 oed yn cael eu gwahodd i fod yn rhan o Heddwch ar Waith ar bob lefel.

3. Bydd y trydydd grŵp gwaith yn canolbwyntio ar adeiladu rhwydwaith o lobïwyr – gwirfoddolwyr a fydd yn cyfathrebu'n rheolaidd â'n cynrychiolwyr gwleidyddol. Bydd y bobl hyn yn derbyn cymaint o gefnogaeth ag y bydd ei angen fel bod gweithredu mor syml â phosib, gan roi anogaeth hefyd i'r sawl sy'n dymuno bod yn fwy creadigol wrth lythyru. Bydd canlyniadau'r lobïo dros heddwch yn cael ei rannu â'r rhwydwaith er mwyn annog ymdeimlad o bwrpas a llwyddiant.

4. Yn olaf, bydd y pedwerydd grŵp yn gweithio tuag at sicrhau bod cenedl y Cymry'n dod yn 'Genedl dros Heddwch' drwy fabwysiadau Cenhadon Heddwch o fewn awdurdodau lleol i gyfateb i'r rhaglen gyfredol o Gynrychiolwyr y Lluoedd Arfog. Bydd cenedl â heddwch wrth ei chalon yn grymuso pobl i newid cyfeiriad ein heconomi, ein cyfundrefn addysg a'n diwylliant tuag at ddyfodol mwy cynaliadwy a diogel.

A fyddai gennych chi neu bobl rydych yn eu hadnabod ddiddordeb mewn ymuno ag un o'r grwpiau gwaith? Cysylltwch ag Awel Irene, 10 Garreg Frech, Llanfrothen, Gwynedd LL48 6BZ.

# Sasiwn Chwiorydd y Gogledd

Croeso cynnes i Sasiwn y Chwiorydd yng Nghapel Maengwyn, Machynlleth, ddydd Iau, 4 Mai, am 2 o'r gloch. Cod post y capel yw SY20 8DT, ac fe saif ar stryd fawr Maengwyn, rhyw ganllath o gloc y dref, a'r capel yn amlwg gyda'i dŵr uchel. Taith ddiogel i chwi i gyd!

Mae deugain mlynedd er i'r sasiwn fod yn y dref hon ddiwethaf, a phryd hynny fe wnaeth yr Annibynwyr a'r capel Saesneg ymuno. Erbyn heddiw, dim ond Maengwyn sy'n aros o'r pedwar capel Cymraeg, a'r hyn a'n gwahanodd fel enwadau yn y gorffennol yn prysur fynd yn angof.

I fyny stryd fawr Maengwyn mae hen Senedd-dy Owain Glyndŵr. Ymhellach eto, tu allan i siop y Co-op, gwelir dau faen gwyn. Mae'r rhain i'n hatgoffa i Owain Glyndŵr addo: 1) eglwys yn rhydd o eglwys Rhufain, a 2) prifysgol i ddysgu ei chlerigwyr drwy'r iaith Gymraeg.


Gobeithio y mwynhewch eich arhosiad yn y dref hynafol hon, ac y bydd y sasiwn hon, ac yn sicr araith Mrs Nerys Siddall, yn fodd o dyfu a chryfhau achos cred, nid yn unig ym Machynlleth ond yn ogystal mewn ardal ehangach. Mae cymaint o angen neges cariad a heddwch yn ein byd argyfyngus heddiw.

Croeso anghynnes gafodd Howel Harris pan ymwelodd â'r dref yn 1739, ond bu sawl sasiwn yma ers hynny, a gallaf eich sicrhau y bydd croeso cynnes iawn yn eich disgwyl yma ar 4 Mai.

*Delyth Rees*



ADNABOD



Cymeriadau'r Hen Destament

ABRAHAM

Cyfres o astudiaethau gan y Parch. Meirion Morris ar gyfer grŵp neu unigolion; gellir eu defnyddio ochr yn ochr â'r gyfrol *Dehongli Bywyd Abraham* gan Gareth Lloyd Jones.

## 20 Cyfamod – enw a phobl

### Darllen: Genesis 17:1–8

Yn ystod yr astudiaethau hyn ar fywyd Abraham fe ddylech fod yn sylwi erbyn hyn fod yna elfen o ailadrodd. Yn wir, i rywun sy'n darllen y testun yn Genesis yn weddol arwynebol, gellid edrych heibio ambell ddarn. Yn naturiol, gan mai hwn yw llyfr cyntaf y Beibl, mi fyddem yn disgwyl bod y gwirioneddau sylfaenol yn cael eu pwysleisio. Fel un sy'n hoff iawn o wylio rhaglenni ditectif, yr wyf wedi dysgu y dylid cymryd sylw manwl iawn o'r cyflwyniad, y munudau agoriadol, gan fod deall beth ddaw, a sut y mae'r stori yn gorffen, yn aml yn mynd â ni yn ôl i'r golygfeydd agoriadol. Yn rhagluniaeth Duw y mae gennym y Beibl, un llyfr, ac mae llawer i'w ddweud o blaid ei ddarllen felly. Mae'r un llyfr yma ag un gwrthrych – Duw ei hun; llyfr am Dduw yw hwn, ac er bod yna lawer sy'n sôn am bobl ynddo, yn y llyfr yma dylid darllen y cyfan gyda golwg ar yr hyn a ddywed am Dduw, ac am y ffordd y mae Ef yn dod i berthynas â phobl. Dyma air Duw i fyd Duw, ac yn y tudalennau fe gawn olwg ar oblygiadau hyn, cael golwg ar yr hyn y mae ffydd yn Nuw yn ei olygu yn ymarferol.

Yn Genesis 17 mae Duw yn manylu ar y cyfamod a wnaeth ag Abraham yn ei alwad ym mhennod 12, a'r addewid cyfamodol ym mhennod 15. Mae hynny hefyd yn adeiladu ar y cyfamod a wnaed â Noa ym mhennod 8, lle y cawn addewid cyfamodol i warchod y greadigaeth. Ond yn y cyfamod â Noa, mae yna gydnabyddiaeth nad oedd calon dyn wedi newid: "Ni felltithiaf y ddaear mwyach o achos dyn, er bod gogwydd ei feddwl yn ddrwg o'i ieuenctid." Yn wir, mae hanes Babel yn cadarnhau hynny. Felly, fel yng ngweddill y Beibl, hanfod a sicrwydd y cyfamod yw gwaith Duw, yr hyn y mae Ef yn bwriadu ei gyflawni. Os oedd yr addewid i Noa yn addo gwarchodaeth dros bob cenedl, mae'r addewid i Abraham yn addo presenoldeb gyda'r un genedl, yr un genedl fyddai'n cynnwys pobl o bob cenedl, plant Abraham. Sylwch er enghraifft ar hyn yn Genesis 17: 6–8. Yr wyf wedi rhoi rhai geiriau mewn print trwm er mwyn ein cynorthwyo i ddeall hyn:

> **Gwnaf** di'n ffrwythlon iawn; a **gwnaf** genhedloedd ohonot, a daw brenhinoedd allan ohonot. **Sefydlaf** fy nghyfamod yn gyfamod tragwyddol â thi, ac â'th ddisgynyddion ar dy ôl dros eu cenedlaethau, i fod yn Dduw i ti ac i'th ddisgynyddion ar dy ôl. A **rhoddaf** y wlad yr wyt yn crwydro ynddi, sef holl wlad Canaan, yn etifeddiaeth dragwyddol i ti ac i'th ddisgynyddion ar dy ôl, a **byddaf** yn Dduw iddynt.

Mae'r cymal olaf yn adnod 8, yn ôl yr esboniwr Derek Kidner, yn gwbl allweddol. Iddo ef, dyma yw'r cyfamod: yr addewid o'r nefoedd y bydd Duw yn Dduw i'r bobl yma. Er bod yna addewidion lu, yr addewid yw fod Duw yn galw pobl, a bydd Ef ei hun yn Dduw iddynt, ac fel y gwelwn, ar waethaf eu crwydro a'u cefnu, ni fydd Duw yn crwydro oddi wrth ei air, nac yn cefnu arno. Dyma'r llinyn a welir, er enghraifft, yn Exodus 6:7: "Fe'ch cymeraf yn bobl i mi, a byddaf finnau yn Dduw i chwi" ac yn Exodus 33:14: "Byddaf fi fy hun gyda thi, a rhoddaf iti orffwysfa." Mae'r un peth yn cael ei bwysleisio yn 2 Samuel: "Sicrheaist ti dy bobl Israel i fod yn bobl i ti hyd byth; a daethost tithau, O ARGLWYDD, yn Dduw iddynt hwy", ac ar ei orau yn Datguddiad 21:3: "Clywais lais uchel o'r orsedd yn dweud, 'Wele, y mae preswylfa Duw gyda'r ddynoliaeth; bydd ef yn preswylio gyda hwy, byddant hwy yn bobloedd iddo ef, a bydd Duw ei hun gyda hwy, yn Dduw iddynt."

O ran yr adnodau, sylwch yn adnod 1, ar ôl 13 blynedd mae Abraham yn cael profiad arbennig eto o bresenoldeb Duw. Er ei fod yn gyfaill Duw, yn cerdded gyda Duw, yn ymddiried yn Nuw, mae'r testun am dynnu ein sylw at yr eithriadau hyn, Duw yn siarad mewn ffordd arbennig. Mae'r her yn un syml: "Rhodia ger fy mron a bydd berffaith." Nid bod hwn yn air newydd: dyna wnaeth Enoch yn 5:22 a dyma Noa yn 6:9. Wedi galw ar Abraham i ymateb yn briodol, mae Duw am ddatguddio'r mwy sydd ganddo ar ei gyfer. Y mae wedi ei alw, mae wedi addo'i wneud yn dad i genedl, ond yn awr, bydd yn dad i lu o genhedloedd. Mae'r allwedd yn yr enw newydd, Abram – tad llawer, Abraham – tad llawer o genhedloedd. Gyda'r addewid, mae'r bobl yma, o bob cenedl, yn mynd i fod yn un genedl frenhinol, ac yr ydym yn gwybod yn dda am y brenhinoedd hynny ddaeth, ond yn fwy na hynny am y Brenin ddaeth. Fe sylwch ar hyn yn y rhestr o genedlaethau Iesu yn Mathew 1. Ar y dechrau cawn yr ymadrodd: "Dyma restr achau Iesu Grist, Mab Dafydd, mab Abraham." Fel roeddwn yn sôn ar y dechrau, mae Genesis yn rhagymadrodd ac yn allwedd i ddeall yr hyn a wyddom yn awr am Iesu, yr Un sydd wedi ei orseddu ar ddeheulaw Duw, yn Frenin tragwyddol, yn unol â'r addewid i Dafydd yn Salm 110:1: "Eistedd ar fy neheulaw, nes imi wneud dy elynion yn droedfainc i ti" a'r sylweddoliad yn Marc 16:19: "Felly, wedi iddo lefaru wrthynt, cymerwyd yr Arglwydd Iesu i fyny i'r nef ac eisteddodd ar ddeheulaw Duw."

1. Mae Genesis yn pwysleisio bod Duw yn Dduw sy'n rhoi dechrau newydd, a hynny yn aml yn hanes ei blant. Rhannwch rywfaint o'r dechrau newydd a'r dechreuadau newydd yn eich profiad chi.

2. Yr addewid yn y Beibl yw'r addewid y bydd Duw yn Dduw ei bobl. Dyma sicrwydd y cyfamod yma gydag Abraham, a'r cyfamod â ni yn Iesu. I ba raddau y byddwch yn dibynnu ar hyn o ddydd i ddydd, yn enwedig mewn 'amser adfyd'?

3. Sut mae gwybod bod Iesu wedi ei orseddu yn effeithio ar eich bywyd fel unigolyn, ac ar fywyd eich eglwys?

S4C

*Dechrau Canu, Dechrau Canmol*
**Sul, 23 Ebrill** – Dim rhaglen

BBC radio cymru

*Caniadaeth y Cysegr*
**Sul, 23 Ebrill, am 7:30yb a 4:30yp**
Rhaglen yn trafod perthnasau sydd wedi cyfrannu tuag at ein hemynyddiaeth

**Sul, 23 Ebrill, am 12:00yp**
Oedfa dan arweiniad Fiona Gannon, Clydach

# *Y Traethodydd* yn trafod cyfieithu o ieithoedd tramor


Rhifyn arbennig ar gyfieithu o lenyddiaethau tramor i'r Gymraeg yw'r rhifyn cyfredol o'r *Traethodydd*, sef rhifyn Ebrill 2023. Mae'n cynnwys tair ysgrif gynhwysfawr gan awduron iau, ynghyd â rhagymadrodd yn adrodd cefndir y rhifyn sy'n deillio o gynhadledd academaidd a gynhaliwyd ym Mangor ym Mehefin 2021.

Awdur yr ysgrif gyntaf yw Rhiannedd Jewell o Brifysgol Aberystwyth. Mae'n trafod yr ymgeisiadau a wnaed yn y gorffennol i drosi gweithiau'r dramodydd o'r Eidal Luigi Pirandello, yn neilltuol ei ddrama enwog 'Tri Chymeriad yn Chwilio am Awdur'. Yr academydd T. Gwynfor Griffiths oedd cyfiethydd y fersiwn cyntaf, yna'r nofelydd Emyr Humphreys, ac ar ei ôl yr awduron o Fangor, Dyfnallt ac Eleri Morgan. Dyma ysgrif hynod ddisglair ar ddulliau cyfieithu a'r problemau sydd ynghlwm â'r dasg.

Hannah Samms o Brifysgol Abertawe biau'r ail ysgrif. Mae hi'n gofyn y cwestiwn diddorol p'un a yw dramâu Aled Jones Williams mor unigryw eu Cymreigrwydd fel nad oes modd eu trosi o gwbl i ieithoedd eraill. Y gwir yw fod rhai o'i ddramâu *wedi'u* trosi, sy'n herio teitl yr ysgrif: 'Aled Jones Williams: Anghyfieithadwy?'

Yn y drydedd ysgrif mae Elen Ifan o Brifysgol Caerdydd yn disgrifio ac yn dadansoddi'r gweithiau cerdd o ieithoedd tramor a fu'n gymaint rhan o arlwy'r Eisteddfod Genedlaethol ar hyd y blynyddoedd. Ac yn yr ysgrif ragymadroddol mae Helena Miguelez-Carballeira, yr ysgolhaig ifanc o Brifysgol Bangor, yn ymuno â Rhiannedd Jewell a Hannah Samms i gyd-destunoli'r cyfan ac i drafod holl fater perthynas llên gyfoes Gymraeg a'r ieithoedd tramor. Dyma wledd o rifyn sylweddol a difyr.

Anogwn bawb sy'n ymddiddori ym mhethau gorau'r diwylliant cenedlaethol nid yn unig i ddarllen y rhifyn hwn o'r *Traethodydd*, ond i'w brynu a'i archebu. Gellir gwneud hynny trwy gyfrwng y wefan www.ytraethodydd.cymru. Dilynwch ni hefyd ar Drydar ac ar Facebook. Y golygydd yw'r Dr D. Densil Morgan (d.d.morgan@pcdds.ac.uk),





Y Gilfach, Ffordd y Gogledd, Llanbedr Pont Steffan, SA48 7AJ. Am fanylion ynghylch ei archebu, cysylltwch â Joanna Thomas-Wright (joanna.thomas-wright@ebcpcw.cymru), Swyddfa Eglwys Bresbyteraidd Cymru, 81 Heol Merthyr, Yr Eglwys Newydd, Caerdydd, CF14 1DD.

# Fforwm Ffydd (Undeb Athrofa'r Bala)

Mewn pwyllgor i drefnu Cynhadledd Flynyddol Undeb Athrofa'r Bala nifer o flynyddoedd yn ôl bellach mabwysiadwyd awgrym y diweddar annwyl Ddr Elfed ap Nefydd Roberts i enwi'r gynhadledd o hynny allan yn Fforwm Ffydd mewn ymgais i ehangu ei hapêl i bobl o bob enwad. Ac yn wir, braf fu cael croesawu wynebau newydd i'n plith yn ystod y blynyddoedd diwethaf yma, ond mae "digon eto o le"! Felly dyma fanteisio ar y cyfle, trwy garedigrwydd *Cenn@d*, i estyn gwahoddiad a chroeso twymgalon i bawb sy'n dymuno ymuno â'r gynhadledd yn Eglwys Unedig Seilo, Llandudno, ddydd Mawrth, 16 Mai am 9.45 y bore.

Thema'r gynhadledd eleni fydd 'Dehongli'r Beibl' ac edrychwn ymlaen at gael cwmni'r Dr Gareth Evans Jones o Ysgol Hanes, Athroniaeth a Gwyddorau Cymdeithasol Prifysgol Bangor a'r Athro Emeritws Eryl Wynn Davies, Cyn-bennaeth Ysgol Crefydd ac Athroniaeth Prifysgol Bangor, i draddodi'r darlithoedd. Yn Sesiwn y Bore cyflwynir dwy ddarlith gan y Dr Gareth Evans Jones, sef 'Y Beibl o'n tu' ac 'Y Gair yn y Gymru Gyfoes'. Yn y prynhawn bydd yr Athro Emeritws Eryl Wynn Davies yn ein tywys i 'Wynebu'r Anawsterau Beiblaidd' ac fe geir trafodaeth agored yn dilyn pob darlith.




Nodwch y dyddiad a dewch i ymuno yn y Fforwm Ffydd. Bydd croeso cynnes yn eich disgwyl. Mae'n argoeli i fod yn ddiwrnod gwerth chweil, ac edrychwn ymlaen at groesawu cyfeillion hen a newydd.

*Megan Williams*
*(Ysgrifennydd)*

# Dyma gyfarfod hyfryd iawn

## *Prynu gobaith*

**Darllen – Salm 116**

**Gweddi**

Arglwydd Dad, diolchwn i ti dy fod yn wrandäwr gweddi ac yn glustfeiniwr ar ein llefain. Mewn byd o adfyd ac o ing, a ninnau'n ymwybodol fel pob un byw fod clymau angau'n tynhau amdanom, diolchwn fod gennym Waredwr a gyflwynodd ei ysbryd i'r Tad, ac a waredwyd o afael angau er ein mwyn! Tosturia wrthym yn ein tlodi pan lefwn arnat. Arglwydd cyfiawn, nesa atom fel y cawn yn yr Arglwydd Iesu, 'fan yn ymyl Duwdod i bechadur wneud ei nyth'. Rhyddha ni i rodio ger dy fron hyd ddiwedd ein rhawd ddaearol ac yna i dragwyddoldeb maith ei hun, a hynny er dy glod. Arglwydd, fe'th garwn am i ti wrando arnom eto heddiw. Amen.

**Emyn 700 'Ti yr hwn sy'n gwrando gweddi'**

**Darllen – Pedr 1:13–23 'Galwad i Fuchedd Sanctaidd'**

**Gair yn ei amser**

O wrando ar isleisiau ein diwylliant seciwlar cyfoes, fe allem yn rhwydd iawn syrthio i'r demtasiwn o gredu'r sibrydion sy'n tresmasu ar feddwl y Cristion ac sy'n barod i wersylla eu lluoedd yn ein heneidiau gwan.

'Dych chi'n perthyn i oes a fu,' meddai'r oslef barhaus, 'yn credu'n ofer mewn *Arglwydd* gorchfygol a ninnau'n byw mewn *democratiaeth* rydd. Pam y mynnwch fod yn lletchwith yn eich disgwyliadau moesol? Mae angen i chi symud gyda'r oes ac addasu'ch ffydd, eich cred a'ch moesau i fyd seciwlar lle mae'r sôn am Dduw fel Arglwydd yn ein hanesmwytho. Yn ein byd ni, nid ydym yn or-hoff o sicrwydd cred. Yn wir, mae sicrwydd argyhoeddiad yn sawru o awyddfryd croesgadol neu o eithafiaeth jihadaidd difaol.'

**Gair i bob amser**

Cyfeiriodd Pedr ei lythyr at bobl oedd heb unrhyw rym gwleidyddol, heb hawliau, ac a oedd yn cael eu gweld fel bygythiad i drefn ymerodraeth ormesol a didrugaredd Rhufain. Cynulleidfaoedd bychain o Gristnogion oeddynt. Cynulleidfaoedd peryglus oeddynt, am y mynnent gyhoeddi bod yna Arglwydd gogoneddus na allai holl awdurdod Cesar ei hun ei fygwth.

Ni phaid ymerodraeth feddyliol seciwlar ein dydd rhag ofni'r bobl hynny sy'n mynnu bod yn driw i'r 'brenin alltud'.

**Braint**

Wrth gyfarch yr eglwysi bychain hyn mynnodd Pedr eu hatgoffa hwy, a'n hatgoffa ninnau hefyd yr un pryd, o'r fraint o gael perthyn i'r brenin yr ydym yn gweddïo'n ddyddiol am ddyfodiad ei deyrnas yn derfynol i'n plith.

Llinach frenhinol, nid plasty crand, sy'n diffinio'r hawl i lywodraethu!

Efallai i'r byd oddi amgylch edrych arnynt fel cynulleidfaoedd gwasgaredig, bychan a dinod, ond y mae i'r Cristion gwannaf ei ffydd dras nefol ogoneddus. Pobl ydym a gafodd, drwy ras Duw, ein 'geni o'r newydd i obaith bywiol' ac i 'etifeddiaeth' gyfoethog. Plant y brenin ydym!

**Gobaith**

Byddai wedi bod yn rhwyddach i ddarllenwyr Pedr ildio i'r drefn ac osgoi'r erledigaeth a'r profiadau tanllyd a ddaethai i'w rhan. Ond roedd y llawenydd a'u meddiannodd yn eu cadw ar gyfer dydd amlygiad y Gwaredwr buddugoliaethus. Y gobaith gogoneddus hwn a'u rhyddhaodd o afael crefydda ofer eu hynafiaid a gwerthoedd caethiwus eu gorffennol, sef y bywyd yr oeddynt yn ei fyw cyn dyfodiad Iesu i'w bywydau.

**Gwerthoedd newydd**

Nid oeddynt i ildio'u ffydd, na chefnu ar werthoedd newydd teyrnasiad Duw yng Nghrist. Yn wir, roedd y gobaith a blannwyd yn eu calonnau'n galw am hunanddisgyblaeth, am finiogi eu dealltwriaeth o ras ein Harglwydd Iesu Grist ac o ganlyniadau ymarferol credu ynddo.

**Darluniau**

Er mwyn cadarnhau ynddynt y fraint a estynnir i bob Cristion, defnyddiodd Pedr gyfres o ddarluniau i alluogi ei ddarllenwyr (gan ein cynnwys ninnau heddiw) i gofleidio'r bywyd newydd sydd yng Nghrist.

Yn y lle cyntaf, 'plant' ydym i'n Tad nefol. Diffrwyth oedd ein bywydau hyd nes i 'had' anllygradwy gair Duw fywhau ein heneidiau. Drwy'r gair hwnnw cawsom ein geni o'r newydd i'r gobaith a'r ffydd hon (adn. 23).

Ar enedigaeth plentyn, diddorol yw clywed aelodau gwahanol ganghennau'r teuluoedd yn taeru bod y bychan yn debyg i'w mam, ei thad, i'w nain, i'w modryb! Mae disgwyl o'r dechrau y bydd tebygrwydd y teulu i'w weld yn y bychan.

I Pedr, mae disgwyliad ein bod fel plant i'r Tad nefol yn 'sanctaidd yn eich holl ymarweddiad' (adn. 15).

Mae bod yn 'sanctaidd' yn awgrymu ein bod fel *llestr a neilltuwyd* yn benodol i wasanaeth teml neu allor. Nid dysgl neu gawg oedd i'w ddefnyddio'n achlysurol neu i'w drin yn ddi-hid mo'r llestri hyn. Cawsent eu neilltuo i wasanaethu Duw; ac fe gawn ninnau hefyd ein neilltuo mewn meddwl ac mewn moes i sancteiddrwydd gwasanaeth ein Tad.

Ni allwn chwarae ag allanolion pethau sanctaidd. Na, safwn ym mhresenoldeb Tad, sy'n *farnwr* hefyd. Barnwr 'di-dderbyn-wyneb' ydyw nad yw'n edrych ar statws, cyrhaeddiad, neu berfformiad crefyddol. Nid yn ysgafn droed y cerdda'r troseddwr i bresenoldeb barnwr o'r fath. Mae byw yn ei bresenoldeb yn gofyn am ymddygiad pwyllog y rhai sy'n rhodio mewn 'parchedig ofn'.

'Alltudion', pobol nad ydym gartref yn ein genedigol wlad ydym; pobl ydym sy'n byw mewn gwlad ddieithr, lle mae arferion y wlad yr ydym yn tramwyo drwyddi yn wahanol i werthoedd ein cartref nefol.

Caethweision ydym a *brynwyd* i fod yn etifeddion y stad nefol. Ac roedd pris y pryniant yn rhyfeddol. Er mor werthfawr yw trysorau'r ddaear – arian ac aur, annigonol oeddynt i dalu pris ein rhyddid.

Yng nghyfraith Moses cyflwynid y cyntaf-anedig o bob rhywogaeth i'w aberthu i Dduw. Nid aberthid plant, ond caent eu 'prynu' yn ôl gan daliad o bum sicl a delid yn eu lle (Numeri 18). Cawsom ninnau sy'n alltudion yn y byd, yn blant y Tad nefol sy'n farnwr di-dderbyn-wyneb, ein *prynu* 'â gwaed gwerthfawr Un oedd fel oen di-fai a di-nam, sef Crist'. Ef yw'r prynwr a'r pryniant.

Tystiolaeth i eirwiredd yr addewid, digonolrwydd y pryniant, a diogelwch ein gobaith oedd – ac yw – fod bwriad Duw, a gallu Duw, ar waith 'yn niwedd yr amserau', drwy Iesu Grist. Dyma'r prynwr Iesu, yr hwn a gyfodwyd oddi wrth y meirw ac a dderbyniodd y gogoniant.

Erys y cwestiwn i ninnau bob dydd. A wrandawn ar y lleisiau sy'n mynnu mai amherthnasol yw ein cred, mai ofer yw ein ffydd, mai trueiniaid dibwys ydym? Neu a wrandawn ar sibrydiad addewidion grasol Duw a'i ddatganiadau amdanom? Ynddo ef y mae ein cred, ein ffydd, ein hymddiriedaeth, ein hetifeddiaeth a'n gogoniant ninnau.

**Gweddi**

'O na chawn i olwg hyfryd, / Ar dy wedd, dywysog bywyd'. Rhyddha ni i'th wasanaethu mewn llawenydd. Amen.

**Emyn 690 'Tydi a ddaethost gynt o'r nef'**

*RWJ*

Cyhoeddir *Cenn@d* ar y cyd gan Eglwys Bresbyteraidd Cymru ac Undeb Bedyddwyr Cymru.
Oni nodir yn wahanol, nid yw barn cyfranwyr *Cenn@d* yn cynrychioli barn swyddogol Eglwys Bresbyteraidd Cymru nac Undeb Bedyddwyr Cymru. Gallwch anfon eich cyfraniadau / gohebiaethau / ymholiadau at:
watcyn@cennad.cymru | huw@cennad.cymru | aled@ysgolsul.com
www.cennad.cymru CennadCymru @CennadCymru